Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

***Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004***
***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, (Rheoliad 25) fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015***
***Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, (Rheoliad 16)***

*HYSBYSIAD MABWYSIADU*

Bu i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 30 Medi 2020. Daeth Cynllun Datblygu Lleol 2 yn weithredol ar adeg ei fabwysiadu.

Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ddogfen bolisi gynllunio ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'n amlinellu polisïau allweddol a dyraniadau tir fydd yn llunio dyfodol y Parc Cenedlaethol ac yn arwain anghenion datblygu hyd at 2031. Mae'n disodli Cynllun Datblygu Lleol 1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae copïau o Gynllun Datblygu Lleol 2, yn cynnwys ei Fap Cynigion, a'r Datganiad Mabwysiadu ar gael i'w gweld gan y cyhoedd am ddim:

- ym Mhrif Swyddfa'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY. Oriau Agor: Dydd Llun i ddydd Iau 9am i 5pm, ac ar ddydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm.
- neu yng Nghanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc, Tyddewi, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 6NW, yn ystod oriau agor arferol (pan fydd y ganolfan yn ail-agor i'r cyhoedd).

Mae hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod: ***<https://www.pembrokeshirecoast.wales>*** a mewn llyfrgelloedd cyhoeddus gyda chyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd yn ystod eu horiau agor arferol (pan fyddant yn ail-agor i'r cyhoedd).

Ochr yn ochr â'r Cynllun mabwysiedig, mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyhoeddi ac maent hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod:

- Datganiad Mabwysiadu (y ddogfen hon)
- Adroddiad/Arfarniad Cynaliadwyedd Terfynol (yn ymgorffori'r Adroddiad Amgylcheddol)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb
- Adroddiad yr Arolygydd
- Adroddiad o'r Ymgynghoriad

Gall unrhyw berson sy'n tybio iddo gael cam gan y Cynllun Datblygu Lleol ac sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wneir oddi tano mewn perthynas â mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, cyn pen chwe wythnos o 30 Medi 2020, wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

## Datganiad Cynaliadwyedd

1. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol i asesu eu cynaliadwyedd a'u heffaith debygol ar yr amgylchedd. Bwriad hyn yw sicrhau bod y Cynllun yn cyfrannu tuag at y nod o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r AoG yn ymgorffori gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac fe'i cyflawnwyd fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddebau Ewropeaidd a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig.

2. Mae'r AoG yn broses ailadroddol. Cyhoeddwyd adroddiad Cwmpasu yn ystod Ionawr 2016. Cynhaliwyd yr ymarfer cwmpasu i sicrhau bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cwmpasu'r materion cynaliadwyedd sy'n wynebu'r Parc a'i bobl, fel sy'n berthnasol i gynllunio defnydd tir. Mae Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Terfynol ar gael gyda'i atodiadau, ychwanegiad a siart trosi cysylltiedig ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

3. Paratowyd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn unol â Dibenion Statudol Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn nodi bod yn rhaid i ddatblygu o fewn Parc Cenedlaethol neu sy'n effeithio ar Barc Cenedlaethol fod yn gydnaws â a) gwarchod neu wella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc, a b) dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o’r rhinweddau hynny. Wrth benderfynu ar gynigion, rhoddir sylw dyledus i’r angen i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn y Parc ar yr amod bod hyn yn gydnaws â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol a ymgorfforir yn yr ystyriaethau uchod. Adlewyrchir y dibenion hyn yn amcanion y Cynllun, y mae naw ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â diogelu a gwella'r amgylchedd ac felly sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio yn y Cynllun.

### Y Weledigaeth

4. Mae Gweledigaeth y Cynllun wedi esblygu trwy gydol datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol cyntaf a'r ddau Gynllun Rheoli ac mae'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd wedi chwarae rhan yn y broses hon.

### Strategaeth a Ffefrir

5. Roedd y Cam Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn canolbwyntio ar fireinio'r opsiynau polisi a'r sylfaen bolisi a oedd eisoes wedi'u datblygu o dan Gynllun Datblygu Lleol 1. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi helpu i ddethol opsiynau polisi ac i fireinio polisïau drafft. Ymgorfforwyd nifer o newidiadau yn y Strategaeth a Ffefrir, y gellir dod o hyd i fanylion pellach amdanynt yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y Strategaeth a Ffefrir Newydd (Mai 2017).

6. Gwnaed nifer o sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir a lywiodd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun wedi'i Adneuo. Er bod llawer o'r rhain wedi arwain at ymhelaethu ar a/neu egluro'r dadleuon a oedd yn cefnogi casgliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ni newidiodd y rhain ei gasgliadau ac nid oedd ganddynt oblygiadau i'r Cynllun ei hun, ac eithrio'r awgrym o opsiwn ychwanegol i'w ystyried ar gyfer tai/tai fforddiadwy o ran ail gartrefi. Gellir gweld canlyniadau'r asesiad o'r opsiwn hwn yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun wedi'i Adneuo.

### Cynllun wedi'i Adneuo

7. Yn ystod y cam Adneuo gwnaed diwygiadau i'r Polisïau, ac ni newidiodd yr un ohonynt eu hasesiadau yn erbyn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd.

8. Gwnaed sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r Cynllun wedi'i Adneuo ar safleoedd a ddyrannwyd i'w datblygu a'r rhai a gafodd eu gwrthod yn ystod y broses safle ymgeisiol. Ystyriwyd yr holl sylwadau hyn, ond ni wnaethant newid ein hasesiadau na'n casgliadau.

9. Cafwyd un ymateb yn ymwneud ag arfarnu Polisïau'r Cynllun, ystyriwyd y sylw hwn ond ni newidiodd ein hasesiadau na'n casgliadau.

## Dyraniadau Datblygu

10. Rhan o'r fframwaith gwerthuso ar gyfer dyrannu safleoedd posib i'w datblygu oedd asesu'r safleoedd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd. Aseswyd dyraniadau datblygu posib trwy broses pedwar cam. Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd oedd trydydd cam y broses hon. Cyflwynwyd cyfanswm o 152 o safleoedd trwy'r broses safle ymgeisiol, ystyriwyd 28 i'w dyrannu, o'r rheiny dewiswyd 16 ac ystyriwyd bod 12 yn annerbyniol gyda budd yr arfarniad o gynaliadwyedd.

## Newidiadau â Ffocws

11. Roedd y Newidiadau â Ffocws arfaethedig yn cynnwys sylwebaeth arfarniad o gynaliadwyedd yn nodi effaith pob un o'r addasiadau arfaethedig i'r Cynllun wedi'i Adneuo ar gynaliadwyedd cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad Newidiadau â Ffocws a arweiniodd at adolygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## Newidiadau Materion sy'n Codi

12. Mae Newidiadau Materion sy'n Codi yn ganlyniad i wrandawiadau archwilio. Mewn llawer o achosion roedd y Newidiadau Materion sy'n Codi yn rhoi eglurhad a diweddariadau nad oeddynt yn effeithio ar yr asesiadau na'r argymhellion Arfarniad o Gynaliadwyedd; er enghraifft cyfeiriadau at Bolisi Cynllunio Cymru 10.

13. Roedd y Newidiadau Materion sy'n Codi hefyd yn cynnwys rhesymoli polisïau, dileu polisïau a pholisïau newydd. Cafodd y rhain eu sgrinio am effaith sylweddol debygol yn erbyn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, fel y nodir yn yr ychwanegiad i Adroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi'i Adneuo.

14. Wrth sgrinio'r Newidiadau Materion sy'n Codi ystyriwyd bod angen asesu dau newid ymhellach. Y rhain oedd Polisi 7 (a) dilëwyd mewnlenwi a thalgrynnu sensitif ac ychwanegwyd polisi ychwanegol ar Safleoedd Eithrio Tai Fforddiadwy. Nid oedd y naill newid na'r llall yn ddigon sylweddol i newid Arfarniad o Gynaliadwyedd cyffredinol y Cynllun.

15. Yn ogystal, ychwanegwyd dangosyddion posibl at bennod Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ynghyd â diwygiad i'r tabl materion. Unwaith eto, ni arweiniodd y

newidiadau hyn at unrhyw newidiadau i Arfarniad o Gynaliadwyedd Cyffredinol y Cynllun.

## Adroddiad yr Arolygydd

16. Mae Adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad i'r Cynllun Datblygu Lleol yn cadarnhau bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'u cwblhau a bod y ddogfen Newidiadau â Ffocws a'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn nodi effaith pob un o'r addasiadau arfaethedig i'r Cynllun wedi'i Adneuo ar gynaliadwyedd cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol. Cadarnhaodd ei bod yn fodlon bod y profion gweithdrefnol wedi'u cyflawni.

## Casgliadau Materion Cynaliadwyedd

17. Mae cynaliadwyedd wedi cael ei integreiddio yn y Cynllun Datblygu Lleol yn gyffredinol. Mae set o amcanion yn llifo o'r weledigaeth ac yn cynnwys strategaeth ofodol sy'n lleihau'r angen i deithio; gwella cadwraeth ynni, effeithlonrwydd a chyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol; cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd; annog adeiladu cynaliadwy; gwarchod a gwella bioamrywiaeth; y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol; a chynnal yr economi leol. Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cymhwyso'r weledigaeth a'r amcanion ac yn sicrhau bod ystyriaethau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u hintegreiddio i'r Cynllun trwy bolisïau penodol, gan gynnwys Diogelu Bioamrywiaeth, Ailgylchu, Deunyddiau Eilaidd a Deunyddiau Gwastraff, ar ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau adeiladu, Compostio, Adeiladu Cynaliadwy, Lleihau Gwastraff, Draenio Dŵr Wyneb, annog systemau draenio cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy, Llifogydd a Llifogydd o'r Môr a Thrafnidiaeth Gynaliadwy er enghraifft.

18. Mae canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u hystyried wrth lunio gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac fe'u defnyddiwyd i brofi cynaliadwyedd y Cynllun. Cymerwyd cyfleoedd hefyd i wella cynaliadwyedd y Cynllun trwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac mewn ymateb i ymgynghoriadau. Mae mwy o fanylion am y rhain i'w gweld yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd ac maent yn cynnwys y strategaeth ofodol, graddfa'r twf, rheoli gwastraff, dylunio cynaliadwy, economi ymwelwyr, cyflogaeth, tai fforddiadwy a rhinweddau arbennig er enghraifft.

## Monitro'r Cynllun

19. Mae'r mesurau i'w defnyddio i fonitro'r goblygiadau amgylcheddol a chynaliadwyedd wedi'u cynnwys yn Adran 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd canlyniadau monitro'r dangosyddion hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol. Cyhoeddir yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2022.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

20. Gwnaeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Ystyriwyd pob un o'r 61 polisi yn y Cynllun wedi'i Adneuo mewn perthynas â'r potensial am effeithiau sylweddol tebygol ar unrhyw safle Ewropeaidd o'r ddogfen, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.

21. Yn dilyn yr ymarfer sgrinio cychwynnol, nodwyd bod 6 pholisi a 6 dyraniad tai posibl yn cael effaith sylweddol debygol. Nodwyd mesurau lliniaru, ar ffurf cyfyngiadau polisi neu gafeatau achos-benodol a awgrymwyd, mewn perthynas â phob un o'r deuddeg o elfennau'r Cynllun hwn fel rhan o asesiad priodol.

22. Derbyniwyd yr holl fesurau lliniaru a argymhellwyd a diwygiwyd y Cynllun yn unol â hynny, gan alluogi dod i'r casgliad na fyddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd.

## Pobl Dros y Gwynt

23. Cwblhawyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol yn wreiddiol ym mis Chwefror 2018. Ym mis Ebrill 2018, cyn cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo, cyflwynodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd eu dyfarniad yn yr achos *Pobl Dros y Gwynt.* Cyn y dyfarniad, roedd yn arfer sefydledig y dylai awdurdodau cymwys ystyried mesurau lliniaru a oedd wedi'u hymgorffori mewn cynllun neu brosiect wrth benderfynu a fyddai'n cael effaith sylweddol debygol. Dyfarnodd y llys fod hyn yn anghywir ac nad oedd yn briodol, yn y cam sgrinio, i ystyried mesurau a fwriadwyd i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar safle Ewropeaidd.

24. Ym mis Medi 2018 diweddarwyd y cofnod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol i ystyried y dyfarniad hwn.

## Newidiadau â Ffocws

25. Nododd y Newidiadau â Ffocws y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun wedi'i Adneuo ac fe'u cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad am gyfnod o wyth wythnos a ddaeth i ben ar 15 Chwefror 2019. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o ran y newidiadau a gynigiwyd.

26. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad Newidiadau â Ffocws a oedd yn gofyn am adolygiad o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol.

## Newidiadau Materion sy'n Codi

27. Mae Materion sy'n Codi yn deillio o wrandawiadau archwilio. Mewn llawer o achosion roedd y Newidiadau Materion sy'n Codi yn rhoi eglurhad ac nid yw'r diweddariadau'n effeithio ar effeithiolrwydd yr argymhellion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; er enghraifft, erys croesgyfeiriadau at Bolisi 10 Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd.

28. Roedd y Newidiadau Materion sy'n Codi hefyd yn cynnwys llawer o resymoli polisïau, gan gynnwys dileu polisïau (gyda neu heb rai newydd) a pholisïau newydd. Cafodd y rhain eu sgrinio am effaith debygol, fel y nodir mewn ychwanegiad i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol. Ym mhob achos lle bo hynny'n berthnasol, mae cwantwm y datblygiad, fel yr aseswyd yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol ym mis Medi 2018, yn aros yr un fath. Mae

safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio presennol yn dwyn ymlaen o'r Cynllun Datblygu Lleol cyntaf (hyd at 2021), a oedd ei hun yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, neu sydd wedi cael eu sgrinio/asesu o ran effaith sylweddol debygol ar lefel y prosiect.

29. Ni ystyriwyd bod unrhyw un o'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop, nac unrhyw effeithiau gweddilliol. Ni ystyriwyd bod unrhyw asesiad pellach ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill yn angenrheidiol.

## Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

30. Roedd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn destun Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a oedd yn sgrinio pob polisi yn erbyn yr effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig o dan ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ystyriodd yr Awdurdod dystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu effaith wirioneddol polisïau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau nad yw polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, nodi unrhyw effeithiau andwyol ar grwpiau gwarchodedig, ystyried sut y gallai'r polisi neu'r arfer hyrwyddo cyfle cyfartal yn well ac ystyried a fydd y polisi'n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau. Lle nodwyd effeithiau negyddol, darparwyd camau lliniarol neu wybodaeth eglurhaol. O ran dangos ‘sylw dyledus’ mae’r asesiad wedi cael ei ystyried ar wahanol gamau gan Swyddogion ac Aelodau o ran y Strategaeth a Ffefrir, ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo a Newidiadau â Ffocws. Cafodd y Newidiadau Materion sy'n Codi eu sgrinio am effeithiau ar gydraddoldeb, ni ystyriwyd bod yr un o'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn arwain at unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac ni ystyriwyd bod angen asesiad pellach.